# Dyfodol rhifau ffôn

## Ymgynghoriad pellach ar rannu refeniw, gan gynnwys addasiadau arfaethedig i'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd: 1 Rhagfyr 2023
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 2 Chwefror 2024

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........................................................................................................................ 1

# 1. Trosolwg

1.1 Mae Ofcom yn gyfrifol am weinyddu rhifau ffôn yn y DU, gan sicrhau'r defnydd gorau ac annog effeithlonrwydd ac arloesedd at y diben hwnnw. Rydym yn cyhoeddi'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol (y Cynllun Rhifau),[1] ein llyfr rheolau ar gyfer rhifau ffôn yn y DU, sy'n nodi'r rhifau a ddarperir i'w defnyddio a'r rheolau ar gyfer sut y gellir defnyddio'r rhifau hynny.

1.2 Mae ein Hadolygiad o Ddyfodol Rhifau'n ystyried a allai datblygiadau ym maes teleffoni a'r defnydd o rifau olygu bod angen newid y rheolau sy'n llywodraethu'r defnydd o rifau ffôn yn y DU, neu roi eglurhad ar gyfer y rheolau hynny.[2] Nodau cyffredinol ein hadolygiad yw:

- hyrwyddo cystadleuaeth rhwng darparwyr gwasanaethau ffôn;
- hybu hyder mewn rhifau a gwasanaethau ffôn;
- amddiffyn defnyddwyr rhag niwed; a
- sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o rifau ffôn, ac annog effeithlonrwydd ac arloesedd i'r diben hwnnw, yn unol â'n dyletswydd gyffredinol o ran swyddogaethau rhifau ffôn.

1.3 Rydym yn symud yr adolygiad hwn ymlaen drwy gyfres o ymgynghoriadau. Yn y ddogfen hon rydym yn adolygu'r hyn a ddywedwn am rannu refeniw yn y Cynllun Rhifau.

1.4 Mae rhannu refeniw yn digwydd pan fydd darparwr cyfathrebu'n rhannu rhan o'r refeniw y mae'n ei dderbyn am derfynu galwadau ffôn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gyda'r person sy'n derbyn yr alwad (y parti sy'n cael ei alw), neu gyda'r person sy'n gwneud yr alwad (y parti sy'n galw).

1.5 Mae'r rheolau rhannu refeniw presennol yn y Cynllun Rhifau wedi datblygu mewn modd ad hoc, gan arwain at rai anghysondebau. Mae'r Cynllun Rhifau'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer rhannu refeniw ar ystodau penodol (er enghraifft 084 a 087) ond mewn achosion eraill nid yw'n pennu a ganiateir rhannu refeniw ai beidio. Efallai bod hyn yn ymddangos fel y byddai'n caniatáu rhannu refeniw mewn ffyrdd a allai achosi niwed i ddefnyddwyr. Yng ngoleuni ein dyletswyddau, a nodau ein Hadolygiad o Ddyfodol Rhifau, rydym felly yn cynnig darparu eglurhad o ran y rheolau hyn.

1.6 Rydym o'r farn y bydd ein cynigion yn helpu i hybu hyder mewn rhifau a gwasanaethau ffôn, sy'n un o amcanion allweddol ein hadolygiad, oherwydd yr ydym yn dileu rhai o'r cymhellion ar gyfer gweithgareddau a allai, er enghraifft, danseilio'r ddarpariaeth o fwndeli o alwadau cynhwysol i ddefnyddwyr ar rifau 084 a 087. Mae bwndeli o'r fath yn cael eu gwerthfawrogi gan ddefnyddwyr ac yn helpu i leihau'r risg a'r pryder o daliadau annisgwyl, yn enwedig gan mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd gan ddefnyddwyr fel arfer o bris galwadau y tu allan i'w bwndeli.

[1] Ofcom, 2022. *Y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol* (y Cynllun Rhifau).
[2] Ofcom, 2022. *Dyfodol rhifau ffôn* (Adolygiad o Ddyfodol Rhifau).

## Beth rydym yn ei gynnig - yn gryno

Rydym wedi adolygu pob ystod rhif yn y Cynllun Rhifau i asesu a yw’n briodol i'w defnyddio ar gyfer rhannu refeniw, ac yn gwneud y cynigion a ganlyn:

**Rhifau 01/02, 03, 055, 056, 070, a 076**

Mae'r ystodau rhifau hyn yn cefnogi amrywiaeth o wasanaethau. Fodd bynnag, ni fwriadwyd y dylai darparwyr cyfathrebu rannu refeniw ag unrhyw barti arall i alwad. Felly, rydym yn cynnig ei wneud yn glir na chaniateir rhannu refeniw, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gyda naill ai’r parti sy'n cael ei alw na’r parti sy’n galw ar yr ystodau rhifau hyn.

**Rhifau 084 ac 087**

Mae ein rheolau'n caniatáu i'r ystodau hyn gefnogi mecanwaith talu micro er mwyn i alwyr dalu am wasanaethau trwy rannu refeniw o'r alwad gyda'r parti sy'n cael ei alw. Ni fydd hyn yn newid o ganlyniad i'r cynigion yr ydym yn eu gwneud yn yr ymgynghoriad hwn.

Fodd bynnag, rydym yn cynnig gwahardd rhannu refeniw â'r parti sy'n galw. Mae'r math hwn o rannu refeniw yn fecanwaith pwysig mewn cynlluniau 'arian am alwadau' sy'n annog cwsmeriaid i greu galwadau artiffisial er elw ariannol. Gall gweithgareddau o’r fath danseilio’r galwadau cynhwysol sydd ar gael mewn bwndeli i rifau 084 a 087, y maent yn bwysig i ddefnyddwyr sydd yn aml ag ymwybyddiaeth gyfyngedig o bris galwadau y tu allan i’w bwndel.

**Rhifau 07 symudol, 09 a 118**

Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion mewn perthynas â’r ystodau rhifau hyn.

Yn achos rhifau symudol 07 yn y DU, byddai unrhyw waharddiad ar rannu refeniw yn berthnasol i SMS/MMS yn ogystal â galwadau llais. Rydym yn gwahodd sylwadau ynghylch a fyddai gwaharddiad o’r fath yn cael unrhyw ganlyniadau andwyol. Er y gallai fod achos dros ddarparu eglurhad o reolau rhannu refeniw mewn perthynas â galwadau symudol, byddai angen gwneud rhagor o waith i bennu effeithiau a manteision llawn cynnig o’r fath ar y farchnad ar gyfer negeseuon testun ac amlgyfrwng SMS/MMS.

Bwriedir i'r ystodau 09 (cyfradd premiwm) a 118 (ymholiadau cyfeiriadur) gynnig mecanwaith talu micro er mwyn i alwyr dalu am wasanaethau trwy alluogi rhannu refeniw galwadau gyda'r parti sy'n cael ei alw. Gan mai anaml y caiff y galwadau hyn eu cynnwys mewn bwndeli galwadau, mae cynlluniau arian am alwadau'n annhebygol o godi. O ganlyniad, nid ydym yn gweld bod angen gwahardd rhannu refeniw gyda'r parti sy'n galw ar hyn o bryd.

**Dileu'r ystod rifau rhyngrwyd 082 i ysgolion**

Rydym hefyd yn cynnig diweddaru'r Cynllun Rhifau i ddileu'r ystod rifau rhyngrwyd 082 i ysgolion. Defnyddiwyd yr ystod hon ar gyfer gwasanaethau rhyngrwyd deialu-i-fyny ond mae bellach wedi diflannu o ddefnydd. Mae'r holl ddyraniadau rhifau 082 wedi'u dychwelyd i Ofcom.

# Y camau nesaf

1.7 Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 2 Chwefror 2024. Bwriadwn gyhoeddi datganiad sy'n nodi ein penderfyniad yn ail chwarter 2024.